BWRDD DIOGELU
OEDOLION GOGLEDD
CYMRU

NEGESEUON ALLWEDDOL

O'r cyfarfod a gynhaliwyd

Ddydd Iau 20 Medi 2018

- Derbyniodd y Bwrdd gymeradwyaeth uchel yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngogledd Cymru o safbwynt datblygu a gweithredu'r Protocol Hunan – Esgeulustod.

- Cynhaliwyd Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi gan y Grŵp Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu ac y Cyd, a amlygodd faterion ynglŷn ag ymwybyddiaeth sylfaenol a hyfforddiant diogelu sylfaenol ar draws y rhanbarth. Derbyniodd a chefnogodd y Bwrdd argymhellion yr adroddiad.

- Ar y cyd, cynhaliodd Bwrdd Diogelu a Heddlu Gogledd Cymru lansiad Protocol Herbert ar gyfer Unigolion sy'n mynd ar Goll yng Nghanolfan Fusnes Conwy, cafwyd llawer o sylw yn y wasg a daeth nifer o bobl i'r digwyddiad. Cadeirydd y Bwrdd a'r Prif Gwnstabl Gareth Pritchard agorodd y lansiad, derbyniwyd adborth o'r digwyddiad yn y Bwrdd.

- Derbyniwyd adroddiadau amlygu gan is-grwpiau'r Bwrdd oedd yn amlygu unrhyw broblemau o safbwynt ymarfer ac yn diweddaru ar gynnydd y grwpiau yn erbyn eu rhaglenni gwaith.

- Ymunodd 3 cynorthwywyr allanol/hwyluswyr o Lywodraeth Cymru â'r Bwrdd, a fydd yn gweithio gyda'r Bwrdd ar faterion allweddol.